

Cofnodion



Pwyllgor Safonau

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Tachwedd 2018

Amser: 5.30 pm

Bresennol: P Westwood (Cadeirydd),
Cynghorwyr V Dudley, H Thomas, P Hourahine,
J Davies A Mitchell and P Worthington

G Price (Head of Law & Regulation), A Jenkins (Governance Team Leader)

1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Britton and K Watkins.

2 Datganiadau o Fuddiant

Dim wedi'u derbyn.

3 Cofnodion y cyfarfod (ydd) diwethaf

Cyflwynwyd Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 12 Gorffennaf 2018.

Cytunwyd:

Cymeradwywyd Cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

4 Materion yn codi

Mabwysiadwyd y Protocol Swyddogion / Aelodau gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2018.

5 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd Dr P Worthington fel aelod newydd o'r Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Gynhadledd Flynyddol Safonau a gynhaliwyd yn Aberyswyth ym mis Medi. Dim ond dau le oedd ar gael i Aelodau Safonau Casnewydd ac yn anffodus doedd neb yn gallu mynychu. Byddai unrhyw bapurau o'r gynhadledd yn cael eu dosbarthu i aelodau pan fyddant ar gael.

6 Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion.

7 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau - 2017/18

Roedd disgwyl i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf, gan nodi materion penodol a oedd wedi codi a nodi'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyflwynwyd drafft o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18 i'r pwyllgor am sylwadau a chymeradwyaeth cyn ei gyflwyniad i gyfarfod nesaf y cyngor llawn ar 27 Tachwedd 2018.

Awgrymwyd bod y Cynghorydd H Thomas yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn fel y gwnaeth yn y flwyddyn flaenorol.

Cytunwyd:

- Gwneud unrhyw sylwadau ar yr adroddiad erbyn 8 Tachwedd 2018 a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 27 Tachwedd.
- Cynghorydd H Thomas i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yn y Cyngor.

8 Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2017-2018

Yn dilyn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18, cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei lythyr Blynyddol i'r Cyngor, yn nodi gwybodaeth yn ymwneud â nifer y cwynion am gamweinyddu a chamymddwyn a gyfeiriwyd at ei swyddfa yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â Chyngor Dinas Casnewydd a'i Gynghorwyr.

O ran nifer y cwynion neu gamweinyddu roedd cynnydd yn ymwneud â chynllunio neu reoli adeiladau. Roedd hyn yn weddol gynrychioliadol o ran natur y cwynion. Yn gyffredinol, roedd aelodau'r cyhoedd yn teimlo'r angen i gwyno wrth yr ombwdsmon er nad cwynion difrifol oedd y rhain.

Roedd dau fater yn yr adroddiad a gafodd eu datrys yn lleol. Yn ogystal, gwnaed nifer o gwynion ynglŷn â chynghorau cymuned.

O'r tair cwyn o fewn ardal Casnewydd doedd dim byd oedd angen ymchwiliad pellach. Roedd cwynion ar gael ar wefan yr Ombwdsmon lle gallai aelodau adeiladu darlun o'r hyn oedd yn digwydd ledled y wlad.

Cytunwyd:

I nodi'r adroddiad a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.

9 Panel Dyfarnu Cymru: Canllawiau Sancsiynau

Cyhoeddodd Panel Dyfarnu Cymru Ganllawiau statudol yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd gan dri bwnlysoedd achos, apêl ac achosion interim er mwyn dod i benderfyniadau teg, cymesur a chyson ar y sancsiynau y dylid eu cymhwysu mewn perthynas â thorri Cod Ymddygiad Aelodau.

O'r herwydd, rhoddodd gyfarwyddyd defnyddiol i'r Pwyllgor Safonau ar y dull y dylid ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw wrandawiadau camymddwyn, yn dilyn atgyfeirio cwyn gan yr Ombwdsmon a'r egwyddorion i'w dilyn wrth ystyried cymesuredd unrhyw gosb.

Roedd pwerau dedfrydu'r Panel yn fwy na'r Pwyllgor Safonau ond roeddent yn berthnasol pe bai'n rhaid i'r Cyngor osod unrhyw gosbau o ganlyniad i gamymddwyn, gan fod cysondeb o ran dull a chymesuredd.

Er y byddai Casnewydd yn dilyn canllawiau a ddarparwyd gan y Panel pe bai mater difrifol, roedd Cynghorwyr yng Nghasnewydd yn cael eu briffio'n dda ac yn cadw at gyfarwyddiadau pan ddywedwyd wrthynt. Ni fu unrhyw faterion difrifol ers i'r cod ymddygiad blaenorol ddod i rym yn 2001 yn ogystal â hyfforddiant cod ymddygiad yn dilyn etholiadau lleol, fodd bynnag, rhaid i'r Pwyllgor beidio â bod yn hunanfodlon.

10 **Arolwg Staff/Cynghorwyr: Diweddariad Ilafar**

Cyfeiriodd yr holiadur at arolwg y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn 2011, fodd bynnag, dosbarthwyd copi o'r holiadur blaenorol a'r adroddiad o 2001. Cwblhawyd yr holiadur a'i ddychwelyd yn 2011 ond ni chymerwyd unrhyw gamau o ganlyniad i'r canfyddiad. Dim ond dogfen sbesimen oedd y ddogfen a ddosbarthwyd a gellid newid cwestiynau yn unol â hynny.

Gofynnwyd i'r pwyllgor felly a fyddai'n ymarfer gwerth chweil ailadrodd y broses.

Byddai'r arolwg staff yn gylchrediad cyffredinol a fyddai'n cael ei anfon at ychydig bach o staff oedd â pherthynas waith gyda chynghorwyr, fel uwch reolwyr. Byddai'r arolwg hefyd yn cael ei anfon at gynghorwyr.

Awgrymwyd y gallai cwestiwn yn ymwneud â chysylltiadau staff/cynghorwyr fod yn gwestiwn a gynhwysir fel rhan o'r arolwg staff sy'n cael ei ddosbarthu unwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, yn ddiweddar, roedd hyn wedi'i gyhoeddi a'i gwblhau ond roedd yn ymwneud â materion cyflogaeth.

Cafwyd trafodaeth ynghylch perthnasedd yr arolwg heb unrhyw benderfyniad clir ar ffordd ymlaen.

Awgrymodd y Cadeirydd fod yr aelodau yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater ac yn gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd:

Gohirio'r arolwg tan y cyfarfod nesaf i roi mwy o ystyriaeth i'r holiadur.

11 **Llythyr at Gyngorau Cymuned - Adolygiad o Safonau Moesegol: Holiadur Dilyniant**

Roedd y rhan fwyaf o'r Cyngorau Cymuned wedi dychwelyd eu holiadur gorffenedig gyda dim ond dau yn weddill. O ganlyniad, tynnodd yr holiadur sylw at yr angen am hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr Cymuned, byddai sesiwn hyfforddi ar y cyd yn y Ganolfan Ddinesig yn gwneud sesiwn ddiddorol gyda disgwyliad uwch o ran mynychu. Gyda hyn mewn golwg, soniodd cynrychiolydd y cyngor cymuned fod hyfforddiant yn costio i'r cyngorau cymuned a byddai unrhyw hyfforddiant am ddim yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

O'r 12 ymateb a dderbyniwyd roedd pob Cyngor Cymuned yn cydymffurfio â'u rhwymedigaeth i gofrestru ar gyfer y cod ymddygiad.

Yn olaf, cytunwyd gan mai dim ond dau gyngor cymuned oedd ar ôl oedd heb gwblhau'r holiadur, sef Y Redwig a Michaelston-y-fedw, y byddai ymateb yn cael ei geisio trwy gyswllt dros y ffôn neu e-bost.

12 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Dydd Iau 17 Ionawr 2019 am 5.30pm yn Ystafell Bwyllgor 4.

